



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016



Crynodeb i bobl ifanc

# Helo

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn helpu teuluoedd pan mae angen hynny arnyh nhw, ac yn gwneud yn siŵr bod pobl yn ddiogel os ydyn nhw mewn risg. Maen nhw hefyd yn helpu plant a phobl ifanc sydd:

- mewn perygl o gael eu niweidio
- â phroblemau teuluol
- ag anabledd
- mewn helynt â'r heddlu
- yn derbyn gofal
- heb rywun yn gofalu amdanyh nhw fel y dylen nhw.

**Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bobl gael bywyd llesol.**

**i** **Lles** – sy'n golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'i fywyd a'r pethau y mae'n eu gwneud.

**Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthyh chi am Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**

**Mae'r Ddeddf yma'n ymwneud â gwirio bod gwasanaethau gofal a chymorth mor dda ag y dylen nhw fod.**

## **Darparwyr gwasanaeth**

Mae yna wahanol ffyrdd o roi gofal a chymorth:

- gan awdurdodau lleol (cynghorau)
- gan gwmnïau preifat
- gan sefydliadau neu elusennau.

Rydyn ni eisiau gwirio bod darparwyr gwasanaeth yn gwneud popeth yn iawn.

Mae'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC) yn gwneud hyn ar ran Llywodraeth Cymru.



# 1. Gwella pob gwasanaeth gofal

## Llywodraeth Cymru

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod y plant a'r bobl ifanc i gyd yn cael eu hamddiffyn ac yn cael yr help sydd ei angen arny'n nhw.

### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- y gallwn ni amddiffyn diogelwch a lles pawb sy'n defnyddio gwasanaethau.

## Sicrhau canlyniadau

Rydyn ni eisiau canolbwyntio ar les pobl a'r canlyniadau y maen nhw eisiau eu gweld yn eu bywydau.

### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- y bydd gwaith rheoleiddio ac arolygu'n canolbwyntio ar sut mae gwasanaethau'n helpu pobl i ddod i gael bywyd llesol
- bod Gweinidogion Cymru'n gallu gwneud unrhyw beth sydd ei angen i wneud i hyn ddigwydd.

## Ffordd newydd i gofrestru

Mae cymorth nawr yn dod mewn llawer o wahanol ffordd, felly mae angen newid y system gofrestru.

### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- y bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gofrestru unwaith yn unig, gan ddweud wrthon ni pa gymorth y maen nhw'n ei roi a lle maen nhw'n ei roi.

## Adroddiadau

Mae angen gwybodaeth glir ar bobl fel eu bod nhw'n gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r gwasanaethau y maen nhw eisiau eu defnyddio.

### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- y bydd yna adroddiadau gan ddarparwyr gwasanaeth bob blwyddyn a fydd ar gael i bawb eu darllen
- y bydd gan adroddiadau wybodaeth am y gwasanaethau gofal a chymorth y maen nhw'n eu darparu.

## Hysbysiadau

Os bydd arolygiad yn dangos nad yw darparwr gwasanaeth yn gwneud popeth y dylai ei wneud ar gyfer y bobl y mae'n gofalu amdany'n nhw, fe fydd yn cael gwybod sut mae angen iddo wella. Os na fydd yn gwneud newidiadau ac yn gwella, mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddo gau.

### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- bod gan Weinidogion Cymru fwy o bwerau i ddelio â phroblemau
- bod yna fwy o gyfleoedd i helpu darparwyr gwasanaeth i wella.



### Unigolion Cyfrifol

Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth fod ag un person wedi'i enwi sy'n gyfrifol. Mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol wneud yn siŵr bod y gofal a'r cymorth i gyd yn ddiogel ac yn diwallu anghenion pobl.

#### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- bod yn rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol nawr fod naill ai'n berchennog y cwmni, yn bartner neu'n uwch swyddog yr awdurdod lleol
- bod gan yr Unigolyn Cyfrifol fwy o gyfrifoldeb cyfreithiol.

### Arolygiadau

Mae gan arolygwyr y pŵer i wneud unrhyw beth y maen nhw o'r farn sydd angen digwydd i gadw pobl yn ddiogel. Mae eu hadroddiadau'n dweud pa mor dda y mae gwasanaeth yn gwneud, ond nid ydyn nhw'n rhoi unrhyw sgôr.

#### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- bod Arolygwyr yn dal i allu gwneud popeth y maen nhw'n ei wneud nawr
- y caiff datganiad ei gyhoeddi i esbonio sut bydd y cyhoedd yn cael eu cynnwys.

### Pan fydd rhywbeth yn methu

Mae Gweinidogion Cymru'n gallu gwneud cais i Ynad Heddwch i gau gwasanaeth os yw'n methu.

#### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- bod Gweinidogion Cymru'n dal i allu gwneud hyn
- bod yr Ynad Heddwch yn gallu caniatáu amser cyn i wasanaeth gau fel bod pobl yn gallu cael cymorth newydd mewn modd sydd wedi'i gynllunio.



## 2. Gwella gwasanaethau gofal awdurdodau lleol

### Archwilio

Mae gwasanaethau awdurdodau lleol yn cael eu harchwilio. Mae Gweinidogion Cymru'n cael yr adroddiadau ac yn gallu gofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnyh nhw i wneud penderfyniadau.

### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- bod Gweinidogion Cymru hefyd yn gallu gwirio sut mae awdurdodau lleol wedi cynnwys pobl yn eu gwaith cynllunio.

### Adroddiadau

Bob blwyddyn, mae awdurdodau lleol yn ysgrifennu adroddiad ar sut maen nhw'n rhoi gofal a chymorth. Rhaid i'r adroddiadau yma esbonio'r gwaith i gyd y mae awdurdodau lleol wedi'i wneud i wella lles pobl.

### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- bod yn rhaid sicrhau bod adroddiadau awdurdodau lleol ar gael i'r cyhoedd
- bod yn rhaid i'r adroddiadau ddweud sut mae awdurdodau lleol wedi gweithio gyda phobl, a bod yn rhaid iddyn nhw gynnwys profiadau pobl
- y bydd adroddiadau'n eglur ac yn hawdd i'w deall, fel y bydd hi'n haws cymharu adroddiadau gwahanol awdurdodau lleol.



### 3. Gwybod mwy am ddarparwyr gwasanaeth

#### Y farchnad ofal

Mae yna lawer o ddarparwyr gwasanaeth sy'n gwerthu gwasanaethau gofal a chymorth. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod darparwyr gwasanaeth yn sefydlog ac wedi'u rheoli'n dda.

#### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- bod gan Weinidogion Cymru hawl i archwilio darparwyr gwasanaeth
- bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ysgrifennu adroddiad am y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru.

#### Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae yna wahanol grwpiau sy'n gweithio i wella gwasanaethau cymdeithasol. Weithiau, dydy'r gwaith yma heb ei gydgyssylltu.

#### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- y caiff Cyngor Gofal Cymru ei wneud yn fwy, a Gofal Cymdeithasol Cymru fydd yr enw arno
- y bydd ganddo fwy o bŵer i wella gwasanaethau a chefnogi pobl sy'n gweithio ym maes gofal.

## 5. Gwella sgiliau a hyfforddiant.

### Y Gofrestr

**i Y Gofrestr** – ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a rhai gweithwyr gofal a chymorth. Fe fydd hon ar gael i bobl edrych arni.

Mae'n bwysig bod pobl yn cael gofal a chymorth oddi wrth staff sydd wedi'u hyfforddi'n iawn ac sy'n meddu ar y sgiliau iawn. Bydd cael cofrestr yn helpu pobl sy'n dewis gofal a chymorth i wneud penderfyniadau.

#### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- y bydd pawb yn gwybod pwy sy'n gorfod cofrestru a gwybodaeth arall
- y bydd yna 'banel' neu grŵp a fydd yn penderfynu pwy sy'n ddiogel i fod ar y gofrestr a phwy sydd ddim yn ddiogel
- na fydd gweithwyr gofal sydd heb y cymwysterau neu'r sgiliau iawn yn gallu cofrestru.

### Amddiffyn y teitl

Dim ond gweithwyr cymdeithasol sydd â chymwysterau sy'n gallu defnyddio'r teitl 'Gweithiwr Cymdeithasol'. Mae unrhyw un arall sy'n galw ei hun yn Weithiwr Cymdeithasol yn torri'r gyfraith.

#### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- bod y teitl 'Gweithiwr Cymdeithasol' yn dal i gael ei amddiffyn
- bod Gweinidogion Cymru'n gallu amddiffyn teitlau gweithwyr gofal eraill.

### Hyfforddiant

Mae hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn cael ei archwilio.

#### *Mae'r gyfraith yma'n golygu:*

- y bydd yna system well ar gyfer archwilio pob hyfforddian
- y bydd yna safonau hyfforddi newydd.

Diolch am ddarllen hwn.  
Os ydych chi eisiau gwybod mwy:

e-bost: [R&ISCAct2016@cymru.gsi.gov.uk](mailto:R&ISCAct2016@cymru.gsi.gov.uk)

